***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1937 (Cy.206)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau i Drefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2011

*Gwnaed - - - - 29 Gorffennaf 2011*
*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 3 Awst 2011*
*Yn dod i rym - - 1 Medi 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 108(3)(c), (7), (8), (9), (10) ac (11) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau i Drefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2011 ac mae'n dod i rym ar 1 Medi 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

**Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004**

**2.** Mae Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) yn erthygl 3(1), ar ôl y diffiniad o "y Ddeddf", mewnosoder—

> "ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, nac yn ŵyl banc o fewn ystyr "*bank holiday*" yn adran 1 o Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**3**);"; a

(b) yn erthygl 4(3) yn lle "na phythefnos" rhodder "nag ugain o ddiwrnodau gwaith".

(**1**) 2002 p.32.
(**2**) O.S. 2004/2915 (Cy.254) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/3239 (Cy.244).
(**3**) 1971 p.80.

**Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005**

**3.** Mae Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005(**4**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) yn erthygl 3(1), ar ôl y diffiniad o "y Ddeddf", mewnosoder—

"ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, nac yn ŵyl banc o fewn ystyr "bank holiday" yn adran 1 o Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971;"; a

(b) yn erthygl 4(2), yn lle "na phythefnos", rhodder "nag ugain o ddiwrnodau gwaith".

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

29 Gorffennaf 2011

(**4**) O.S. 2005/1394 (Cy.108) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/3239 (Cy.244) ac O.S. 2008/1899 (Cy.181).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004 ("Gorchymyn 2004") yn pennu'r trefniadau asesu ar gyfer yr ail gyfnod allweddol ac mae Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005 ("Gorchymyn 2005") yn pennu'r trefniadau asesu ar gyfer y trydydd cyfnod allweddol.

Mae Gorchymyn 2004 a Gorchymyn 2005 yn gosod dyletswydd ar athrawon i asesu disgyblion mewn ysgolion yng Nghymru ddim hwyrach na phythefnos cyn diwedd tymor yr haf. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r ddarpariaeth honno yng Ngorchymyn 2004 a Gorchymyn 2005 fel bod rhaid i ddisgyblion gael eu hasesu ddim hwyrach nag ugain o ddiwrnodau gwaith cyn diwedd tymor yr haf.